**Blaenoriaethau Arfaethedig ar gyfer Strategaeth Gofalwyr nesaf Gorllewin Cymru 2025-2030**

**Rydym yn croesawu eich barn**

**YN CAU 3 Mawrth 2025**

Dylai gofalwyr di-dâl o bob oedran yng Ngorllewin Cymru fod yn weladwy, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a chael eu cefnogi.

Dyma'r blaenoriaethau arfaethedig a fydd yn sylfaen Strategaeth Gofalwyr nesaf Gorllewin Cymru, ac maent yn seiliedig ar y sgyrsiau rydym wedi'u cael gyda gofalwyr a sefydliadau di-dâl sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl, dros y 9 mis diwethaf.

Rydym yn croesawu eich barn ac os hoffech helpu i lunio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer Strategaeth Gofalwyr, cwblhewch yr arolwg byr canlynol erbyn 3 Mawrth 2025.

Mae ymchwil yn dangos bod llawer o bobl yng Nghymru nad ydynt yn gweld eu hunain fel gofalwyr di-dâl. Os ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog yn rheolaidd nad yw o bosibl yn gallu ymdopi heb ryw fath o help, boed hynny'n siopa negeseuon neu ddarparu cymorth personol mwy dwys, byddech yn cael eich ystyried yn ofalwr di-dâl.  Nid yw gofalwyr di-dâl bob amser angen neu eisiau cymorth, ond gall amgylchiadau newid, dros amser neu'n annisgwyl, gan arwain at argyfwng posibl neu ddirywiad mewn iechyd a llesiant.

**Cwestiynau:**

1. **Amdanoch chi - ticiwch bopeth sy'n berthnasol**

- o Rwyf ar hyn o bryd yn darparu gofal di-dâl i aelod o’r teulu neu ffrind
- o Rwyf wedi darparu gofal di-dâl i aelod o’r teulu neu ffrind yn y gorffennol
- o Nid wyf erioed wedi bod yn ofalwr di-dâl, er fy mod ar hyn o bryd yn cefnogi rhywun sydd yn ofalwr di-dâl neu yn y gorffennol wedi cefnogi rhywun sy’n ofalwr di-dâl
- o Sefydliad sy’n darparu cymorth i ofalwyr

2. A ydych chi'n cytuno â'r flaenoriaeth - **Mae gofalwyr yn weladwy ac yn teimlo wedi eu gwerthfawrogi?**

   Ydw/Nac ydw
   Os nad ydych, esboniwch…………………………

**3.** A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu arfaethedig i gefnogi'r flaenoriaeth - **Mae gofalwyr yn weladwy ac yn teimlo wedi eu gwerthfawrogi**

**<u>Camau gweithredu arfaethedig:</u>**

**Dathlu a hyrwyddo gwerth gofalwyr**

- Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd gofalwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol lleol
- Hyrwyddo cynlluniau Cerdyn Adnabod Gofalwyr
- Cynyddu ymwybyddiaeth o wefan Cymorth i Ofalwyr Gorllewin Cymru

**Cynyddu ymwybyddiaeth sefydliadol**

- Cyflwyno cynlluniau fel 'Buddsoddwyr mewn Gofalwyr' i annog cydnabod gofalwyr o bob oedran yn gynnar ac i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael
- Annog cyflogwyr lleol i adnabod a chefnogi staff sydd â chyfrifoldebau gofalu

**Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr**

- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr ar waith ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr, gan ei ddarparu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys: e-ddysgu, gweminarau a sesiynau wyneb yn wyneb

Ydw/Nac ydw
Os nad ydych, awgrymwch unrhyw opsiynau eraill…………………….

**4.** A oes camau eraill y dylid eu cymryd i gefnogi'r flaenoriaeth - **Mae gofalwyr yn weladwy ac yn teimlo wedi eu gwerthfawrogi?**

Oes/Nac oes
Os oes, awgrymwch unrhyw gamau ychwanegol………………………

5. A ydych chi'n cytuno â'r flaenoriaeth - **Mae gofalwyr yn cael eu cefnogi?**

   Ydw/Nac ydw
   Os nad ydych, esboniwch………………………

6. A ydych yn cytuno â'r camau arfaethedig i gefnogi'r flaenoriaeth - **Mae gofalwyr yn cael eu cefnogi?**

<u>**Camau gweithredu arfaethedig**</u>

**Sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir**

- Mae gwybodaeth ar gael mewn amryw fformatau, gan gynnwys gwefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru, taflenni, posteri a chyngor wyneb yn wyneb
- Bydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol fel nyrsys, fferyllwyr, meddygon teulu, staff gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn cael cymorth i helpu i gyfeirio at wasanaethau priodol i gefnogi gofalwyr

**Gweithredu dull 'Dim Drws Anghywir'**

- Bydd awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd, y sector gwirfoddol a gofalwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol a rhanbarthol
- Gyda chydsyniad, byddwn yn gwneud rhannu gwybodaeth yn haws rhwng partneriaid a gwasanaethau fel nad oes rhaid i ofalwyr gadw i egluro eu hamgylchiadau gofalu o hyd ac o hyd

**Cynnig amrywiaeth o wasanaethau i ymateb i anghenion gofalwyr**

- Gofalwyr yn cael cynnig sgwrs 'beth sy'n bwysig i mi' yn eu dewis iaith
- Gall gofalwyr gael gafael ar gymorth i ennill sgiliau, chwilio am waith, neu gadw cyflogaeth sy'n bodoli eisoes
- Bydd ystod amrywiol o gyfleoedd seibiant byr ar gael (yn amodol ar asesiad cymhwysedd a'r cyllid sydd ar gael)
- Bydd gwybodaeth am Eiriolaeth a gwasanaethau cyngor costau byw yn cael ei hyrwyddo
- Bydd grwpiau cymorth gan gyfoedion a rhwydweithiau gofalwyr yn y rhanbarth ar gael i ddarparu cymorth i ofalwyr

Ydw/Nac ydw
Os nad ydych, awgrymwch unrhyw opsiynau eraill…………………….

7. A oes camau eraill y dylid eu cymryd i gefnogi'r flaenoriaeth (Mae gofalwyr yn cael eu cefnogi)?

   Oes/Nac oes
   Os oes, awgrymwch unrhyw gamau ychwanegol……………………

8. Pa fesurau eraill y gellid eu defnyddio i ddangos bod pethau'n newid ac yn gwella?

| Budd mesuradwy |
|---|
| **Cynnydd o 5%** bob blwyddyn yn nifer **yr oedolion sy'n ofalwyr sy'n cael eu cefnogi gan** y Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr. |
| **Cynnydd o 5%** bob blwyddyn yn nifer y **gofalwyr ifanc sy'n cael eu cefnogi gan** y Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr. |
| **Cynnydd o 5%** bob blwyddyn yn nifer y **gofalwyr sy'n oedolion ifanc sy'n cael eu cefnogi** gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr. |
| **Cynnydd o 15%** bob blwyddyn yn y lleoliadau ledled Gorllewin Cymru sy'n **rhan o'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.** |
| **Canran yr oedolion sy'n ofalwyr** bob blwyddyn sy'n dweud bod y cymorth a gawsant wedi **hybu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol.*** |
| **Canran yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr** bob blwyddyn sy'n dweud bod y cymorth a gawsant wedi **hybu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol.*** |
| **Canran yr oedolion ifanc** bob blwyddyn sy'n dweud bod y cymorth a gawsant wedi **hybu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol.*** |
| **Cynnydd o 15%** bob blwyddyn yn nifer y **gofalwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Cymorth Rhyddhau i Ofalwyr.** |
| **Canran y gofalwyr ifanc a'r oedolion ifanc sy'n ofalwyr** sy'n teimlo eu bod yn **derbyn cymorth sy'n diwallu eu hanghenion fel gofalwr.*** |
| **Cynnydd o 15%** bob blwyddyn yn **nifer yr ymweliadau â'r wefan gofalwyr rhanbarthol.** |
| Cynnydd o 10% yn y Wobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr |

Nodwch……………………………………………...

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

**Gwefannau Cymorth**
Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru: https://carerssupportwestwales.org/support

DEWIS: https://www.dewis.wales/

Cardiau adnabod gofalwyr Sir Gâr: https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/social-care-health/support-for-carers/carers-card

Cardiau adnabod gofalwyr Penfro: https://www.pembrokeshire.gov.uk/unpaid-carers

Cardiau adnabod gofalwyr Ceredigion: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/wellbeing-and-care/support-for-carers/carer-card

**A ydych chi'n ymwybodol o'r gwefannau cysylltu ar gyfer eich sir?**

Cysylltu Sir Gâr: https://connectcarmarthenshire.org.uk/

Cysylltu Penfro: https://www.connectpembrokeshire.co.uk/

Cysylltu Ceredigion: https://connectceredigion.org.uk/

**CAEL Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU YMA**

https://m.facebook.com/PGGCWWCP/

https://twitter.com/pggcwwcp?lang=en

https://www.instagram.com/pggcwwcp/?hl=en-gb

Diolch am eich amswer